Julie James AC
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

25 Mai 2018

Annwyl Julie

**Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) - materion gweithredol**

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ers sawl mis, wedi chwarae rhan weithredol yn y broses o drafod materion cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a'r broses o graffu ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil").

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar ***graffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)***. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaethom nifer o argymhellion ynglŷn â'r broses sifftio a fydd yn berthnasol i reoliadau a wneir o dan y Bil, a gwnaethom ymrwymiad hefyd i ddychwelyd at faterion mwy gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar y rheoliadau hynny. Ar y mater hwnnw, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am dderbyn ein gwahoddiad i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Mehefin. Bydd hyn yn rhoi cyfle inni drafod y materion gweithredol hyn ymhellach.

Rydym wedi cadw golwg ar ddatblygiadau yn ymwneud â'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac rydym yn ymwybodol bod nifer o welliannau wedi'u pasio yn y Cyfnod Adrodd sydd â goblygiadau o ran y trefniadau craffu sy'n bodoli yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r cytundeb rhynglywodraethol a darwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar 24 Ebrill mewn perthynas â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a sefydlu fframweithiau cyffredin hefyd yn cynnwys materion sy'n haeddu ein sylw. Yn ein hadroddiad ar ***Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)***, gwnaethom ailddatgan ein hymrwymiad i roi ystyriaeth fanwl bellach i'r gwelliannau diweddaraf a gafwyd i'r Bil, ac i unrhyw

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

oblygiadau gweithredol cyfatebol sy'n ymwneud â'r gwaith o graffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil.

Yn dilyn y trafodaethau a gafwyd yn ein cyfarfod ar 21 Mai, a chyn i chi fynychu ein cyfarfod fis nesaf, hoffwn dynnu eich sylw at y materion a ganlyn. Ar hyn o bryd, rydym o'r farn y bydd angen trafod y materion hyn ar 11 Mehefin:

- yr amcangyfrifon presennol o ran nifer a chymhlethdod yr offerynnau y bydd eu hangen er mwyn cywiro diffygion yn y gyfraith sy'n deillio o'r UE;
- yr angen am gynllun ar gyfer edrych tua'r dyfodol / rheoli;
- y broses sifftio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan gymalau 9, 11, Atodlen 2 a 4;
- craffu ar offerynnau cyfansawdd;
- y prosesau hysbysu a ddefnyddir pan fo Gweinidogion y DU yn gwneud rheoliadau o dan gymal 22;
- y broses gydsynio a ddefnyddir pan fo Gweinidogion y DU yn gwneud rheoliadau o dan gymal 15 (cadw cyfyngiadau'r UE mewn deddfwriaeth datganoli ac ati) ac Atodlen 3.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Edrychaf ymlaen at eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 11 Mehefin.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at y Llywydd, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,



**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.